



ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

**TGAU
CELF A DYLUNIO**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

CELF A DYLUNIO

TGAU

Haf 2019

Sylwadau Cyffredinol

Rhagarweiniad

Mae'r Prif Adroddiad hwn wedi'i lunio yn dilyn adborth gan ein tîm gwerthfawr o Gymedrolwyr ac Arweinwyr Tîm CBAC TGAU Celf a Dylunio. Bu'n fraint i'r tîm ymweld â holl ganolfannau CBAC ledled y wlad yn ystod cyfnod cymedroli 2019 ac mae wedi bod mewn sefyllfa dda i roi mewnwelediad i safonau a datblygiadau cyfredol, yn yr hyn a elwir bellach yn ail flwyddyn asesu o ran y Fanyleb newydd. Efallai y bydd cydweithwyr hefyd am ddarllen adroddiad ein Pennaeth EDUQAS ar gyfer TGAU Celf a Dylunio, Mr David Scott; mae cydweithwyr EDUQAS o Loegr yn cyflwyno'r un fanyleb â CBAC, ac o ganlyniad bydd llawer o'r wybodaeth a ddarperir o fewn adroddiad EDUQAS yr un mor ddilys i addysgwyr Celf a Dylunio sy'n darparu'r model CBAC. Yn ddiddorol, mae EDUQAS (ein sefydliad partner) yn profi cynnydd sylweddol mewn canolfannau yn Lloegr, gan atgyfnerthu poblogrwydd y fanyleb newydd a'r cymorth dymunol a ddarperir gan ein tîm gweinyddol yng Nghaerdydd.

Mae nifer cynyddol o gydweithwyr o gefndir Technoleg Dylunio, Deunyddiau Gwrthiannol wedi bod yn mynychu digwyddiadau DPP Celf a Dylunio'n ddiweddar, gan fynegi diddordeb yn y maes sy'n canolbwyntio ar waith 3D ym manyleb TGAU Celf a Dylunio. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous ac rydym yn edrych ymlaen at weld nifer cynyddol o ymgeiswyr yn croesawu'r elfen 3D yn y dyfodol. Mae cyfleoedd sylweddol o fewn 3D i ddatblygu amrywiaeth eang o ddyluniadau a gwneud profiadau sy'n addas ar gyfer arbenigeddau a diddordebau amrywiol gwahanol ganolfannau. Gall hyn gynnwys gwaith cerflunol arddull 'Celfyddyd Gain' draddodiadol a/neu ddulliau sy'n canolbwyntio ar 'ddylunio cynnyrch' a all fod yn fwy cyfarwydd i gydweithwyr o gefndir technoleg. Y ffordd o wneud y newid hwn yw sicrhau bod y pedwar Amcan Asesu yn glir yng nghyflwyniadau'r ymgeiswyr a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar greadigrwydd ac estheteg. Cynghorir cydweithwyr sy'n dymuno cael arweiniad pellach i gysylltu â'n swyddog pwnc, Mari Bradbury.

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pedwar Amcan Asesu, yn hytrach nag efelychu patrwm adroddiadau blaenorol, sydd wedi ymdrin ag elfennau'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol fel endidau ar wahân. Mae materion sy'n ymwneud â'r Amcanion Asesu yn berthnasol yn gyffredinol i'r Portffolio a'r gydran Aseiniad wedi'i osod yn Allanol; o ganlyniad, byddant yn cael eu trafod yn gyfannol. Mae nifer o gryfderau a diffygion y ddarpariaeth Amcanion Asesu yn barhaol o ran eu natur a rhoddir sylwadau arnynt bob blwyddyn. Mae digwyddiadau DPP a Phrif adroddiadau'n ymdrechu i dargedu ac amlygu meysydd penodol sydd angen sylw, ond yn anffodus mae rhai materion yn dal i barhau'n ystyfnig i danseilio cyflwyniadau ymgeiswyr. Yn aml mae hyn oherwydd nad yw ymgeiswyr yn gweithredu ar gyngor a chyfeiriad eu hathrawon; neu yn anffodus, y ffaith bod staff mewn rhai canolfannau yn cael eu hatal rhag mynychu digwyddiadau DPP. O ganlyniad, yn aml, nid yw athrawon yn cael gwybodaeth a allai gael effaith gadarnhaol ar berfformiad eu hymgeiswyr. Mae addysgwyr ac ymgeiswyr Celf a Dylunio yn gweithio mewn llawer o gyd-destunau gwahanol a heriol ac nid swyddogaeth yr adroddiad hwn yw bod yn feirniadol; gwir obeithir y bydd y canfyddiadau a'r arsylwadau a welir yn y testun canlynol yn werthfawr i addysgwyr celf a dylunio sy'n ymwneud ag addysgu'r fanyleb TGAU Celf ar hyn o bryd.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

AA1

Mae cymedrolwyr yn parhau i roi sylwadau ar weld gwaith eithriadol sydd wedi'i ddatblygu o sylfaen gadarn o astudio cyd-destunol. Mae ymweliadau â lleoliadau o ddiddordeb esthetig, orielau a/neu weithdai artistiaid/dylunwyr yn aml yn galluogi ymgeiswyr i gychwyn ar eu teithiau creadigol eu hunain gyda mwy o hyder. Mae'r portffolios mwyaf llwyddiannus ac ymatebion yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn ddieithriad yn dangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad yr ymgeiswyr o waith artistiaid a dylunwyr eraill mewn ffyrdd sy'n bwydo ac yn meithrin eu canlyniadau creadigol eu hunain. Mae'r enghreifftiau hyn yn aml yn drwyadl o ran dadansoddi ac yn dangos yn glir sut mae'r astudiaeth o ffynonellau cyd-destunol wedi cynorthwyo'r ymgeiswyr i greu gwaith sydd wedi ei wella'n sylweddol yn sgil astudiaeth ystyriol o waith gan artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr.

Serch hynny, mae'n hanfodol bwysig bod ymgeiswyr yn osgoi creu canlyniadau sy'n rhy ddeilliannol o waith pobl eraill a'u bod yn dangos barn wrth gymhwyso elfennau o'r hyn y maent wedi'i ddysgu i'w gwaith celf, crefft neu ddylunio eu hunain. Yn y pen draw, mae cymedrolwyr yn dymuno gweld gwaith gwreiddiol sydd wedi cael ei ddylanwadu mewn modd ystyrlon gan yr astudiaeth o ffynonellau cyd-destunol; mae cynllunio a chyfeiriad gofalus gan athrawon yn ennyn y canlyniadau mwyaf llwyddiannus yn hyn o beth, yn enwedig ar ddechrau'r elfen Portffolio. Er bod amrywiaeth resymol o ffynonellau cyd-destunol i'w hannog, ni ddylai hyn fod ar draul dadansoddi ansawdd cymharol fanwl sydd â ffocws pendant.

Dylid osgoi dull 'conffeti' o ddewis ffynonellau cyd-destunol gan mai anaml iawn y bydd hyn yn arwain at astudiaethau sy'n dylanwadu ar waith ymgeiswyr mewn ffyrdd sy'n wirioneddol berthnasol a defnyddiol. Yn anffodus mae'n gyffredin iawn i gymedrolwyr weld cyfeiriadau cyd-destunol heb fawr ddim perthnasedd â gwaith ymarferol ymgeiswyr; yn yr un modd, disgwylir i ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu ymdrechu i gynnig elfen o drylwyrdd mewn perthynas ag anodi ysgrifenedig. Yn rhy aml, mae ymgeiswyr yn colli'r cyfle i ennill marciau gwerthfawr drwy fethu â darparu digon o ddadansoddi ysgrifenedig o'u ffynonellau cyd-destunol. Ymladdodd y byrddau arholi'n galed ar ddechrau'r fanyleb newydd i osgoi gosod arholiad ysgrifenedig ffurfiol; fodd bynnag, mae'r broses o fasnachu yn galw am lefel fwy gweladwy o ymgysylltu ysgrifenedig o gymharu â manylebau blaenorol.


AA2

Mae gwaith clodwiw yn cael ei greu o fewn canolfannau'n genedlaethol gan ymgeiswyr sy'n gweithio ar draws y sbectwm o sefydliadau a chyd-destunau addysgol. Yn wir, mae'n amlwg bod addysgu ysbrydoledig sydd wedi'i strwythuro'n dda yn aml yn llwyddo i oresgyn anfanteision diffyg adnoddau ac amser cyswllt cyfyngedig; mae cydweithwyr yn aml yn darganfod ffyrdd arloesol (fel defnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu, ffynonellau cyllid eraill ac ati.) i sicrhau bod eu hymgeiswyr yn derbyn ehangder rhesymol o ddeunyddiau creadigol. Yn wir, mae'r cymedrolwyr yn dweud bod rhywfaint o'r gwaith mwyaf ysbrydoledig yn aml yn cael ei weld mewn canolfannau a gaiff eu herio gan danariannu ac amddifadedd.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ganolfannau'n sicrhau bod ymgeiswyr yn profi amrywiaeth digonol o ddefnyddiau o fewn y meysydd arbenigol gwahanol ac mae'n gymharol brin gweld cyflwyniadau sy'n gyfyngedig i amrywiaeth annerbyniol o gul o gyfryngau creadigol. Mae'r cyflwyniadau mwyaf llwyddiannus yn dangos hyder braf yn y modd y caiff technegau a defnyddiau eu trin a'u rheoli, a chyflawnir hyn yn aml drwy sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cyrsiau sylfaen sydd wedi'u strwythuro'n dda ar ddechrau'r rhaglen astudio. Mae cyfnod sylfaenol wedi'i gynllunio a'i gyflwyno'n dda sy'n aml yn ymestyn i dymor y gwanwyn yn y flwyddyn gyntaf o astudio TGAU, bellach wedi'i sefydlu'n dda yn y rhan fwyaf o ganolfannau.

Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael yr amser angenrheidiol i fireinio eu sgiliau a'u profiadau cyn cychwyn ar drywyddiau ymholi mwy personol ac annibynnol o fewn corff y Portffolio. Mae Prif adroddiadau blaenorol yn nodi'r dyhead i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng rhoi ehangder rhesymol o dechnegau a chyfryngau i ymgeiswyr gan osgoi anfanteision dull 'techneg y dydd' ar yr un pryd. Yn amlwg, mae angen digon o amser ar ymgeiswyr i ddod yn gyfarwydd â defnyddiau newydd ac i fireinio eu dull technegol o drin y cyfryngau.

Mae'n amlwg o adborth y cymedrolwr fod y rhan fwyaf o'r canolfannau yn llwyddo i sicrhau lefel foddhaol o arbrofi gyda defnyddiau a thechnegau. Fodd bynnag, diffyg datblygu dyluniad parhaus sy'n parhau i danseilio cyflawniad ymgeiswyr yn Amcan Asesu 2. Gwneir sylw am hyn yn flynyddol mewn digwyddiadau DPP ac yn Adroddiad yr Uwch Arholwr ond mae'n parhau i fod y diffyg mwyaf cyffredin o fewn cyflwyniadau ymgeiswyr yn genedlaethol. Cyngorir canolfannau i flaenoriaethu'r agwedd hon fel y prif ffocws ar gyfer datblygu adrannol yn y dyfodol. Mae angen i ymgeiswyr ddangos taith weladwy o ddatblygiad syniad/dyluniad sy'n arwain o'r gwaith ymchwil cychwynnol tuag at y canlyniad neu'r canlyniadau gorffenedig. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys brasluniau anodedig, lluniadau a/neu ddelweddau wedi'u golygu yn dangos, er enghraifft, ystyriaethau cyfansoddiadol cyn mireinio pellach ar ddefnyddiau, technegau ac ati er mwyn cyflawni canlyniad gwell. Byddai'r dull hwn wrth gwrs yn amrywio yn dibynnu ar y maes arbenigedd dan sylw, fodd bynnag, mae'n hanfodol bod llwybr clir o ddatblygu dyluniad yn cael ei wneud yn glir i'r cymedrolwr er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn colli marciau gwerthfawr o fewn yr amcan asesu hwn.





Ysgol Nantgwyn – Celf, Crefft a Dylunio - Portffolio

Yn y cyflwyniad hwn defnyddiwyd amrywiaeth o dechnegau lluniadu fel ysbrydoliaeth i greu ymatebion personol yn cyfuno gwahanol brosesau tecstilau. Mae'r portffolio yn llawn dychymyg ac yn arwain at ddarn olaf cyffrous sy'n cyfuno prosesau lluniadu a thecstilau. Mae'r gwaith wedi'i anodi'n fanwl ac mae'n dangos proses glir o arbrofi a datblygu.

Er bod diffyg datblygu dylunio yn fater pwysig o fewn cydrannau'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i osod yn Allanol, yn aml y cyflwyniad Aseiniad wedi'i osod yn Allanol sy'n dioddef fwyaf o'r diffyg hwn. Yn rhy aml, mae'r cymedrolwr yn rhoi sylwadau ar weld lefel addawol o waith cyd-destunol ac ymchwil heb fawr o arwydd bod hyn yn cael ei ddatblygu mewn modd cyson tuag at y canlyniad. Mae'r canlyniad a gyflawnir o fewn y cyfnod rheoledig o 10 awr yn aml yn cael ei gyrraedd gydag ychydig o dystiolaeth o waith datblygu ac mae hyn yn anochel yn arwain at yr ymgeiswyr yn colli marciau. Heb os, un o'r prif resymau am yr hepgoriad hwn yw bod yr ymgeiswyr yn rhedeg allan o amser yn ystod cyfnod nodweddiadol o anodd o ran pwysau gwaith tymor y gwanwyn. Cynghorir canolfannau i gynnig amserlen fewnol o derfynau amser i ymgeiswyr ar gyfer cwblhau gwahanol agweddau ar y gwaith ategol, gan sicrhau bod yr Amcanion Asesu yn cael eu hymdrin â nhw yn ddigonol rhwng derbyn y papur Aseiniad a dechrau'r cyfnod rheoledig.

AA3

Mae marciau ar gyfer Amcan Asesu 3 hefyd yn cael eu colli gan ymgeiswyr nad ydynt yn rhoi digon o bwyslais ar y daith ddylunio; mae lluniadu ac anodi sylwebaeth sy'n dangos myfyrio beirniadol a gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, yn mynd law yn llaw â'r broses o ddatblygu dylunio ac arbrofi â chyfryngau yn AA2. Cynghorir canolfannau'n gryf i sicrhau bod ymgeiswyr yn rhoi digon o bwyslais ar fyfrio ar ddatblygu eu syniadau er mwyn dangos eu dealltwriaeth a'u hystyr i'r cymedrolwr. Yn wir, mae datblygiad dylunio yn effeithio'n sylweddol ar AA2, AA3 ac AA4. O ganlyniad, mae gan ganolfannau lawer i'w ennill drwy sicrhau bod ymgeiswyr yn hyderus wrth amlygu'r daith ddylunio yn eu cyflwyniadau.

Yn gyffredinol, ymchwilio a chofnodi syniadau yw'r nodwedd gryfaf a gyflawnir o fewn yr amcan asesu hwn a'r elfen a gaiff ei chroesawu'n fwyaf cynhwysfawr gan ymgeiswyr yn genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau'n gyfforddus yn cyfarwyddo eu dysgwyr i ymchwilio a chasglu cyfoeth o ddeunydd gweledol wrth geisio geirdaon a syniadau i fwydo eu meysydd ffocws.

Mae cofnodi drwy ddefnyddio lluniadu a ffotograffiaeth yn rhoi'r sail i ymgeiswyr gasglu'r cyfeiriadau sydd eu hangen i symud ymlaen gyda'u gwaith creadigol; rhaid pwysleisio ar y pwynt hwn y dylai lluniau fod yn berthnasol i'r maes ffocws sy'n cael ei astudio ac y gall fod ar lawer o wahanol ffurfiau ac y dylid eu gwneud o fewn ehangder o ddefnyddiau gwahanol, o siarcol i marciau brodio gyda pheiriant gwnïo.



Lluniadu gyda pheiriant gwnïo – Ysgol Bro Teifi

Mae'r defnydd ystyriol o lyfrau braslunio, dyddiaduron gweledol a/neu bortffolios digidol yn galluogi ymgeiswyr i gael eu gwobrwyo o fewn yr amcan asesu hwn a dylid eu hannog fel dulliau o goladu a golygu gwybodaeth.

Yn aml, mae canolfannau sy'n cynnig thema 'ymbarél' i'w hymgeiswyr o ran y portffolio yn mynd â'u hymgeiswyr i leoliadau o ddiddordeb esthetig er mwyn casglu ffynonellau cynradd sy'n ymwneud â'r thema a ddewiswyd. Yna mae ymgeiswyr yn symud ymlaen i ddatblygu eu llwybrau astudio gwreiddiol eu hunain o'r cyfeiriadau hyn, gan wybod yn hyderus bod ffynhonnell eu hastudiaeth wedi cael ei gwirio a'i chadarnhau'n briodol gan y ganolfan. Mae'r dull o drafod thema addas gydag ymgeiswyr unigol hefyd yn llwyddiannus o ran hwyluso'r broses o gasglu ffynonellau cynradd priodol ac mae'n helpu i annog lefel ddymunol o ddiddordeb personol ac ymgysylltiad parhaus â'r gwaith.

Er bod defnyddio ffynonellau eilaidd yn ddoeth yn dderbyniol mewn rhai cyd-destunau, ni ddylai hyn fod ar draul annog ymgeiswyr i gynhyrchu eu syniadau o gyfeiriadau uniongyrchol. Mae'r defnydd byrbwyll o ffynonellau eilaidd yn ddieithriad yn tanseilio cyflawniad ymgeiswyr gan nad ydynt, yn gyffredinol, y mannau cychwyn mwyaf addas ar gyfer creu gwaith celf neu ddylunio gwreiddiol. Os defnyddir ffynonellau eilaidd, dylid eu defnyddio'n ystyriol, yn ofalus ac ar y cyd â digon o dystiolaeth o ffynonellau uniongyrchol. Heb os, mae ffynonellau cynradd yn denu'r gwaith mwyaf gwreiddiol ac ysbrydoledig a byddant yn galluogi'r ymgeisydd i anelu at lefel sylweddol uwch o farciau.

AA4

Mae CBAC wedi annog canolfannau i gyflwyno gwaith ymgeiswyr mewn fformatau o'u dewis eu hunain; gall hyn fod drwy lyfrau braslunio ynghyd â chanlyniadau, dalennau wedi'u mowntio, portffolios digidol, neu gyfuniad integredig o'r uchod. Pa bynnag ddull a fabwysiedir, mae'n hanfodol fod y pedwar amcan asesu yn gwbl weladwy a bod ymgeiswyr yn ymgymryd â gwaith sy'n bersonol iawn ei natur ac nad yw wedi ei gyfarwyddo'n ormodol gan y ganolfan.

Mae adroddiadau blaenorol wedi sôn am yr arfer mewn rhai canolfannau o orddefnyddio'r gwaith a wneir gan eu hymgeiswyr i'r graddau bod y cymedrolwyr yn aml yn ei chael hi'n broblematic i wahaniaethu rhwng gwaith unigolion mewn sampl. Mae'r arfer hwn yn destun gofid gan ei fod yn atal pob ymgeisydd rhag cynhyrchu canlyniadau gwirioneddol bersonol ac mae'n cyfyngu ar allu ymgeiswyr sy'n cyflawni'n uwch i ffynnu. Mae hefyd yn cael effaith negyddol ar y marciau y gellir eu dyfarnu o fewn AA4 gan fod yr angen i'r gwaith fod yn 'bersonol' wedi'i nodi'n glir yn yr amcan asesu. Yr ymgeiswyr sydd wedi derbyn cyrsiau sylfaen sydd wedi'u cynllunio a'u cyflwyno'n dda sy'n gallu ateb yr her o gynhyrchu gwaith o natur bersonol o fewn y Portffolio ac ymateb yn hyderus i'r cwestiynau a ofynnir yn y papur Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

Mae Amcan Asesu 4 yn ceisio gwobrwyo gallu ymgeiswyr i gyflwyno cyflwyniad cydlynol ac ystyrlon o waith sy'n cynnwys canlyniad (neu ganlyniadau) sydd wedi'u cyflawni drwy gymryd rhan yn y broses o ymchwilio, astudio cyd-destunol, arbrofi, myfyrio a gwneud creadigol. Un o nodweddion cyffredin marcio canolfannau yw gweld canlyniadau o ansawdd da yn cael eu gwobrwyo er gwaethaf diffyg gwaith cefnogol. Mae prinder tystiolaeth o ran ymchwil, arbrofi, cyfeirnodau cyd-destunol ac ati yn anochel yn tanseilio perfformiad o fewn AA4, waeth beth fo ansawdd y canlyniad. Mae'r amcan asesu hwn yn rhoi pwyslais ar asesu llwyddiant y cyflwyniad yn ei gyfanrwydd ac nid yw'n canolbwyntio'n llwyr ar y canlyniad(au). Mae angen llunio barn ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyflwyniad yn 'ddychmygus, yn bersonol ac yn ystyrlon' ac i ba raddau y mae'n dangos 'dealltwriaeth o iaith weledol' ac yn cyfleu 'diben a bwriad y gwaith'. Mae hyn felly yn golygu bod angen i'r cyflwyniad gael ei asesu'n gyfannol ac nid yn unig ar sail llwyddiant neu aflwyddiant y canlyniad(au).



Ysgol Henry Richard – Tecstilau – 2019

Cyflwyniad portffolio Dylunio Tecstilau sy'n dangos lefel ddymunol o drylwyrdd ar draws y pedwar amcan asesu. Dull Portffolio yw hwn sy'n cynnwys dalenni wedi'u mowntio, llyfrau braslunio a dyddiaduron gweledol.

CASGLIAD

Yn anffodus, mae nifer sylweddol o ganolfannau yn marcio gwaith eu hymgeiswyr yn rhy hael, yn enwedig o ran AA2, AA3 a AA4. Mae'r broses cymedroli yn llwyddiannus pan fo marciau'r ganolfan yn adlewyrchu Safonau Cenedlaethol. Mae marcio cywir gan ganolfannau yn ofyniad hanfodol os ydym am osgoi tarfu ar y graddio ac anogir cydweithwyr i sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â safonau cyfoes mewn perthynas â'r fanyleb newydd. Mae'n amlwg yn hanfodol bod addysgwyr celf a dylunio sy'n gyfrifol am addysgu'r fanyleb TGAU i ymgeiswyr, yn deall pa farciau y dylid eu dyfarnu i ymgeiswyr o'r ystod cyrhaeddiad cyfan. Mae digwyddiadau DPP ac gwybodaeth eang am wefannau Lightbox a CBAC (e.e. Fideos Asesu, Gwaith Meincnodi, deunyddiau Enghreifftiol wedi'u Marcio), yn cynnig cyfleoedd helaeth i staff ymgyswrtu â safonau cenedlaethol a'r broses o asesu gwaith TGAU yn gywir. Mae'r dulliau asesu sy'n ymwneud â'r fanyleb newydd wedi cael eu cynllunio i helpu i sicrhau mwy o eglurder o ran asesu gwaith yr ymgeiswyr, ac o ganlyniad mae'n siomedig bod rhai canolfannau yn dal i ymddangos yn ansicr ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol mewn cyflwyniad i haeddu marciau penodol. Mae'n afraid dweud bod yn rhaid i'r marciau a ddyfernir fod yn berthnasol i berfformiad o fewn y pedwar amcan asesu yn unig; mae'n ofynnol i ganolfannau amlygu'r farn hon yn y dadansoddiad o'r marc AA unigol ar gyfer pob ymgeisydd.

Bydd marcio 'ar sail teimlad' sy'n seiliedig yn unig ar ymateb greddfodol byrbwyll yn hytrach nag arfarniad ystyriol o'r gwaith mewn perthynas â'r Amcanion Asesu yn arwain yn ddieithriad at wallau sylweddol pan fydd y cymedrolwr sy'n ymweld yn craffu ar y sampl. Yn ddealladwy, mae canolfannau o dan bwysau sylweddol i sicrhau bod eu hymgeiswyr yn ennill graddau llwyddiannus. Fodd bynnag, ni all hyn fod ar draul glynu at safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Mae cydweithwyr yn genedlaethol yn werthfawrogol iawn o'r ffaith bod CBAC yn cynnig adborth llafar i ganolfannau yn dilyn y broses gymedroli. Er y bydd y ddeialog hon yn ceisio amlygu'r modd y cynhaliwyd elfennau o'r amcanion asesu yn llwyddiannus a rhoi syniad o feysydd i'w datblygu ymhellach, ni ellir ei defnyddio fel cyfle i geisio cael gwybodaeth sy'n ymwneud â marciau'r cymedrolwr. Dylid atgoffa canolfannau na chaniateir i gymedrolwyr drafod y marciau a ddyfernir i ymgeiswyr o dan unrhyw amgylchiadau. Bydd fformat diwygiedig adroddiad y cymedrolwr ar gyfer 2019 yn rhoi adroddiad cynhwysfawr i ganolfannau o gywirdeb marcio canolfannau a meysydd o gryfder a meysydd i'w datblygu ymhellach; bydd hwn ar gael ar wefan ddiogel CBAC ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

Hoffwn gloi drwy atgoffa canolfannau o'r digwyddiadau DPP sydd i ddod yn yr Hydref, a fydd yn ceisio darparu canllawiau pellach yn ymwneud ag asesu gwaith TGAU, yn ogystal ag ymhelaethu ar faterion eraill sy'n berthnasol i'r fanyleb TGAU. Mae gwefan CBAC yn cynnig cyfoeth o wybodaeth sy'n ymwneud ag addysgu/asesu TGAU Celf a Dylunio a chynghorir cydweithwyr i ymweld â'r wefan hon er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol ar lefel adrannol.

Dymunaf flwyddyn academaidd newydd werth chweil a llwyddiannus i chi a byddem yn annog canolfannau sydd angen arweiniad pellach i gysylltu â'n tîm o swyddogion gwybodus a defnyddiol yn CBAC.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y daith ddylunio/datblygu syniadau yn gwbl amlwg o fewn cyflwyniadau'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.
- Sicrhau digon o drylwyrredd mewn perthynas â dadansoddi ffynonellau cyd-destunol.
- Rhoi pwyslais sylweddol ar ddefnyddio ffynonellau cynradd yn hytrach nag eilaidd er mwyn ennyn ymatebion gwirioneddol bersonol a gwreiddiol.
- Anelu at gwblhau cyflwyniadau cydlynol ac integredig sy'n mynd i'r afael â'r pedwar Amcan Asesu yn gyfartal.
- Cynghorir canolfannau'n gryf i ddod yn gwbl gyfarwydd â safonau cenedlaethol mewn perthynas â marcio mewnol; dylai digwyddiadau DPP, deunydd enghreifftiol ar wefan CBAC a ffocws ar ddefnyddio'r offer asesu diagnostig tra'n marcio hwyluso hyn.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk